AMGUEDDFA CYMRU

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:**<br>**Title of meeting:** | **Amgueddfa Cymru – Cyfarfod Agored Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>**Date of Meeting:** | **Dydd Iau 26 Medi 2024, 9.30am – 1.15pm** |
| **Lleoliad:**<br>**Venue:** | **Stiwdio 1, Sain Ffagan** |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:** | Kate Eden (KE), Cadeirydd<br>Hywel John (HJ), Trysorydd<br>Jan Williams (JW), Ymddiriedolwr<br>John Hunt (JH), Ymddiriedolwr<br>Richard Thomas (RT), Ymddiriedolwr [ar-lein]<br>Cai Wilshaw (CW), Ymddiriedolwr<br>Freya Stannard (FS), Ymddiriedolwr<br>Llion Iwan (LI), Ymddiriedolwr<br>Daniel Richards (DR), Ymddiriedolwr<br>David Jones (DJ), Ymddiriedolwr<br>Abigail Lawrence (AL), Ymddiriedolwr<br>Emma Yhnell (EY), Ymddiriedolwr<br>Ameerah Mai (AM), Ymddiriedolwr |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Jane Richardson (JR), Prif Weithredwr<br>Phil Bushby (PB), Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth<br>Nia Williams (NiaW), Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu<br>Nia Elias (NE), Cyfarwyddwr Perthnasoedd a Marchnata<br>Kath Davies (KD), Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil |
| **Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:** | Elizabeth Connolly (LC), Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu<br>Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid<br>Catrin Roberts (CR), Pennaeth Perthnasau Allanol a Nawdd<br>Rhodri Davies (RD), Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu<br>Victoria Hillman (VH), Arweinydd Project: Datblygu Cynaliadwy a Datgarboneiddio [ar-lein – eitem 8 yn unig]<br>Manon Margaksis (MM), Llywodraeth Cymru<br>Nicola Guy (NG), Llywodraeth Cymru [ar-lein]<br>Ioan Davies (ID), Cyfieithydd wyneb yn wyneb<br>Siân Jones (SJ), Cyfieithydd [ar-lein]<br>Philip Westcott (PW), Aelod o Gynllun Cysgodi Bwrdd Llywodraeth Cymru |
| **Datganiadau o fuddiannau:** | 1. Bydd Abigail Lawrence yn gadael y cyfarfod dros dro ar gyfer eitem 13 lle trafodir cymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y BBC.<br>2. Mae John Hunt yn Ymddiriedolwr Amgueddfa Torfaen sy'n rhentu lle gan SF. |
| **Ymddiheuriadau:** | Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau |

| | |
|---|---|
| | Owen Hathway (OH), Ymddiriedolwr<br>Rhys Evans (RE), Is-gadeirydd |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Anahita Almasian, Gweinyddwr Llywodraethu<br>Christopher Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu<br>Amy Matwijciw, Cynorthwyydd Personol i'r Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth |

**Eitem 1: Agor y Cyfarfod**

Cyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau. Estynnwyd croeso cynnes i Abigail sydd wedi dychwelyd ar ôl cyfnod sabothol o 6 mis, ac i Philip Westcott a oedd yn ymuno â'r Bwrdd fel arsylwr, fel rhan o gynllun cysgodi Bwrdd Llywodraeth Cymru. Diolchwyd yn arbennig i Amy Matwijciw a Christopher Pyrah am wneud nodiadau ar gyfer y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD: NODI ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiannau**

## Strategol - Strategic

**Eitem 2. Llunio Ein Dyfodol – Y Diweddaraf**

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr, a Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

Yn ychwanegol at y papur a oedd yn ategu'r eitem hon, nododd JR y diweddariadau canlynol mewn perthynas â'r rhaglen Llunio Ein Dyfodol:

1. Lluniwyd cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn. Bydd angen rhoi disgyblaeth ariannol ar waith dros y flwyddyn nesaf a bydd y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a'r Bwrdd yn monitro hyn yn ofalus.
2. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn heriol ar ôl i'r ad-drefnu arwain at ymadawiadau a swyddi gwag. Dylid canmol cydweithwyr sydd wedi gallu parhau i gyflawni gwaith dros yr haf er gwaethaf yr heriau hyn. Nodwyd bod ymgynghoriadau'n dal i gael eu cynnal gyda staff Blaen y Tŷ ar ambell safle.
3. Gwaith anodd fu pennu cyllidebau ar sail nifer yr ymwelwyr ac, o ganlyniad, ar sail incwm mentrau, a hynny oherwydd amrywiadau yn ymddygiad a nifer yr ymwelwyr. Mae nifer yr ymwelwyr wedi gostwng dros yr haf – rhywbeth a welir ar draws nifer o atyniadau ledled y DU.
4. Ceir ymdeimlad o gyffro ynglŷn â'r modd yr eir i'r afael â Cham 2 Llunio Ein Dyfodol, a fydd yn cael ei arwain a'i gynnal gan drawstoriad o gydweithwyr yn Amgueddfa Cymru er mwyn adrodd yn ôl i'r sefydliad ehangach. Mae hyn oll yn creu ymdeimlad o egni a dealltwriaeth o ran y ffordd newydd o weithio y mae Amgueddfa Cymru yn gweithio tuag ati.
5. Mae'n bwysig nodi nad yw'r holl newidiadau sy'n digwydd o fewn yr amgueddfa yn cael eu cyflawni trwy gyfrwng Llunio Ein Dyfodol. Mae Llunio Ein Dyfodol yn canolbwyntio ar gadernid ariannol, diwylliant mewnol a ffyrdd o weithio er mwyn inni allu datblygu'n sefydliad cyfranogol mwy cyfrannog.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Nododd y Bwrdd na cheir trefniant recriwtio 'tebyg am debyg' - ni ellir recriwtio pobl i lenwi rôl y rhai sydd wedi derbyn trefniant dileu swydd. Yn hytrach, mae Llunio Ein Dyfodol wedi cynnig cyfleoedd i leihau neu ail-ganolbwyntio timau, yn ogystal â chyfle i foderneiddio neu weithio'n wahanol. Ar hyn o bryd, mae'r tîm wrthi'n llenwi'r swyddi hynny sydd wedi cael eu hail-lunio.

2. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd bod cymorth llesiant ar gael i staff sydd wedi bod o dan straen yn sgil y newidiadau diweddar. Ariannwyd y cymorth hwn gan gyllid refeniw ychwanegol o £787,000 gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio hefyd i hyfforddi, datblygu a pharatoi staff ar gyfer ffyrdd newydd o weithio ar ôl i'r strwythurau ddechrau ennill eu plwyf.

3. Cytunodd JR gyda DR y gallai pobl ddefnyddio platfformau fel y cylchlythyr staff misol a'r hysbysiadau staff misol i rannu'r profiadau cadarnhaol a gawsant wrth fynd trwy'r rhaglen newid, er mwyn rhoi hwb i forâl cydweithwyr sy'n ymlafnio gyda'r newidiadau. Fodd bynnag, os bwrir ymlaen â hyn, cytunwyd y bydd yn rhaid rhoi dull sensitif ar waith er mwyn sicrhau na fydd y darllenwyr yn cael eu gorlwytho â negeseuon cadarnhaol, rhag ofn i hynny waethygu'r sefyllfa a pheri gofid i staff eraill.

   **CAM GWEITHREDU: Dylai JR ac RD fynd i'r afael â'r gwaith hwn o safbwynt Cyfathrebu er mwyn cytuno ar ddull addas i'w ddefnyddio.**

   **CAM GWEITHREDU: Dylid anfon cylchlythyrau misol Llunio Ein Dyfodol at yr Ymddiriedolwyr.**

4. Mae JR yn fodlon bod y penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Llunio Ein Dyfodol wedi cael eu gwneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig o ran dangos na roddwyd y weledigaeth hirdymor yn y fantol er mwyn bodloni anghenion byrdymor. Ond cytunwyd y byddai'n ddoeth dangos tystiolaeth o hyn cyn gynted â phosibl.

   **CAM GWEITHREDU: Dylid llunio papur yn dangos tystiolaeth o weithgareddau Llunio Ein Dyfodol yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dylid ei gyflwyno gerbron y Bwrdd yn y dyfodol ar adeg briodol.**

5. Nodwyd bod PH wedi dechrau gweithio ar y Strategaeth Ariannol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ysgwyddo a'i gyflawni gan Steve Hudson ar ôl iddo ddechrau yn ei swydd fel y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau newydd.

6. Nodwyd bod gwarged o £1.5m yn cael ei gyllidebu ar gyfer 2024-25 gyda'r eithriad y bydd y gwarged hwn yn cael ei drosglwyddo i atgyflenwi cronfeydd wrth gefn a dynnwyd i lawr mewn blynyddoedd blaenorol i ariannu diffygion Cymorth Grant. Cadarnhaodd JR y bydd y gwarged yn debygol o gael ei ail-ragamcanu o fewn y mis nesaf oherwydd effaith yr amrywio yn nifer yr ymwelwyr. Bydd yr ymddiriedolwyr yn cael rhagor o wybodaeth yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ac yng Nghyfarfod y Bwrdd a gynhelir ym mis Rhagfyr.

Diolchodd y Cadeirydd i JR am yr wybodaeth a'r gwaith a wnaed hyd yn hyn gan arweinwyr y tair ffrwd waith. Nododd y Cadeirydd y bydd pob arweinydd yn cael ei wahodd i ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol i roi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed ym mhob ffrwd waith; bydd hyn yn cael ei drefnu yn unol â'r amserlenni perthnasol.

**PENDERFYNWYD: DERBYN a NODI'R papur.**

---

### Eitem 3. Diwygio'r Weledigaeth ar gyfer Pob Safle

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu

Eglurodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi bod a wnelo'r eitem hon â'r cyfeiriad a'r dull arfaethedig ar gyfer diwygio ffocws pob safle. Rhoddwyd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr y byddant yn cael cyfle i gyfrannu at fanylion y gweledigaethau wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Cyflwynwyd gerbron y Bwrdd y syniadau cychwynnol ynglŷn â'r weledigaeth ar gyfer pob safle. Nodwyd bod y gwaith wedi cael ei ddatblygu i raddau mwy ar rai safleoedd o gymharu ag eraill. Bydd y broses yn cael ei harwain gan Bennaeth y Safle ar y cyd â staff, gwirfoddolwyr a phenaethiaid adrannau eraill, a bydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd i'w gymeradwyo. Y gobaith yw y bydd modd cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Nodwyd mai ffocws Pennaeth newydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe fydd datblygu statws yr amgueddfa fel yr amgueddfa noddfa gyntaf yn y DU. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen gweithio'n agos gyda Dinas a Chyngor Abertawe.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Croesawyd y papur gan bawb. Nodwyd bod y gwaith yn gyffrous ac yn amserol iawn.
2. Cydnabu'r Bwrdd y cyfleoedd cadarnhaol a ddaw i ran yr holl safleoedd yn sgil y gwaith hwn. Nodwyd rhai awgrymiadau – er enghraifft, Amgueddfa Cymru yn gweithio fel partner gyda Phrifysgol Abertawe yn ogystal â Bargen Ddinesig Bae Abertawe, y posibilrwydd y bydd y Big Pit yn datblygu'n safle arloesol fel lleoliad addysg hinsawdd.
3. Trafodwyd y modd y bydd brand cyffredinol Amgueddfa Cymru yn cyd-fynd â diwygio'r weledigaeth ar gyfer pob safle. Ar sail adborth diweddar, mae NiaW yn ymwybodol bod angen gwneud rhagor o waith gyda'r brand ei hun er mwyn dangos yn glir pwy ydym ni fel amgueddfa.
4. Nodwyd bod angen cydnabod y tensiwn posibl rhwng bod yn atyniadau deniadol i ymwelwyr ar y naill law a sicrhau ar y llaw arall ein bod yn cyflawni ein diben fel amgueddfa, fel y nodir yn y Siarter Frenhinol.
5. Awgrymwyd bod nawr yn adeg dda i ailystyried ystyr y 'casgliad cenedlaethol' a chynnwys y mater yn y drafodaeth ehangach.
6. Bydd gwaith ymgysylltu allanol yn cael ei wneud ynglŷn ag ailbennu'r gweledigaethau. Rydym yn mynd i'r afael â'r manylion ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD: TRAFOD y dull a CHYTUNO arno**

## 4. Canolbwyntio ar Gyllid

### 4.1 Adroddiad Cyllid Diwedd Mis Awst

Mae Amgueddfa Cymru mewn sefyllfa gadarnhaol o ran incwm net, ond mae'n bosibl y bydd yr amrywiant cynyddol rhwng y costau gweithredu a gyllidebwyd a'r costau gweithredu gwirioneddol yn dechrau peri pryder wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Caiff hyn ei fonitro'n ofalus.

Mae dau Bartner Busnes wedi ymuno ag Amgueddfa Cymru yn ddiweddar, yn ogystal â Phartner Busnes Cyfalaf. Mae'r adnodd ychwanegol hwn wedi galluogi YR i dreulio amser gyda chydweithwyr yn trafod eu cyllidebau a'u cynlluniau gwariant.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Diolchodd aelodau'r Bwrdd i YR am y papur a nodwyd eu bod yn gwerthfawrogi naratif manwl a chlir y ffigurau. Hefyd, cydnabu'r Bwrdd mai tasg anodd fu pennu cyllidebau ar gyfer 2024-25 o gofio'r adnoddau cyfyngedig yn y tîm cyllid.
2. Mae Amgueddfa Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn y cyhoeddiad diweddar bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ddyfarniad cyflog o hyd at 5% ar gyfartaledd ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y gallai ariannu'r 1.3% ychwanegol, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Os cytunir y bydd hyn yn digwydd, nodwyd y rhoddir pwysau ar Amgueddfa Cymru o'r flwyddyn nesaf ymlaen – bydd y llinell sylfaen wedi newid a bydd angen ystyried hyn wrth bennu cyllidebau 2025-26.
3. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd na fydd y gwaith datgarboneiddio yn arafu er gwaethaf y ffaith bod y rhan fwyaf o'r arian datgarboneiddio (sef £300k) bron iawn wedi'i wario ar gyfer y flwyddyn. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y gallai rhagor o arian ddod i law, er enghraifft cyflwynwyd cais am waith yn ddiweddar i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru am £1m.
4. Atebwyd ymholiadau'r Bwrdd ynglŷn â'r gweithdrefnau a roddir ar waith wrth bennu cyllidebau a chadarnhawyd bod arian a geir gan Lywodraeth Cymru yn wariant mewn perygl. Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y bydd timau'n gofyn am ailbroffilio'u cyllidebau cyn bo hir er mwyn sicrhau y bydd ganddynt ddigon o arian i gwblhau eu projectau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
5. Buddsoddwyd cronfeydd preifat cyn diwedd y flwyddyn ariannol a llwyddwyd i ennill llawer iawn o log ar y cyfrifon hynny y llynedd. Go brin y bydd yr arian yn cael ei ail-fuddsoddi hyd nes y ceir gwell eglurder ynglŷn â llif arian project Llanberis.
6. Nodwyd nad oedd y tabl Ffyrdd o Weithio ar dudalen 2 yr adroddiad wedi'i gwblhau. Ymddiheurwyd am hyn; camgymeriad a arweiniodd at yr wybodaeth goll a bydd y tabl yn cael ei gwblhau yn yr adroddiad nesaf.
7. Ni cheir pryderon ar hyn o bryd ynglŷn â'r ffaith nad oes cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer nifer o brojectau â gwariant cyfalaf, oherwydd nid ydynt yn brojectau uchel eu gwerth (oddeutu £15,000 - £20,000). Rhoddodd YR sicrwydd i'r aelodau fod cyllidebau'n cael eu monitro'n ofalus.
8. Nodwyd y bydd Nia E yn rhoi trosolwg cyfannol i'r aelodau o'r treialon codi tâl hyd yn hyn a bydd yn rhannu'r weledigaeth fasnachol a ddaw i'r amlwg yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd.

### 4.2 Cymorth Grant Ychwanegol 24/25

1. Bydd Amgueddfa Cymru yn cael grant o £787k i'w helpu i liniaru'r colledion swyddi diweddar, a hefyd i ategu hyfforddiant. Nid yw'r arian hwn yn rhan o Gymorth Grant Amgueddfa Cymru, a chyn y gellir ei dynnu i lawr bydd angen anfon dogfennau at Lywodraeth Cymru yn nodi sut caiff yr arian ei wario. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn cytuno ar beth yn union y dylid gwario'r grant hwn. Bydd YR ac MM yn cyfarfod yr wythnos nesaf i drafod hyn ymhellach.
2. Bydd Amgueddfa Cymru yn cael £947k yn ychwanegol at Gymorth Grant. Cytunwyd pa brojectau a fydd yn cael eu hariannu gyda'r arian hwn ar ôl i gydweithwyr gyflwyno achosion busnes. Dyrannwyd codau project er mwyn i Amgueddfa Cymru allu llunio adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut cafodd y swm hwn ei wario. Nododd YR nad yw'r diweddariad hwn wedi'i gynnwys yn y papur gan fod yr adroddiad yn ymwneud â chyfrifon rheoli mis Awst.

3. Yn ôl pob tebyg, bydd Amgueddfa Cymru yn llwyddo i gael £1.3m i fynd i'r afael â gwaith yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig eto.

### 4.3 Cynllun Archwilio 23/24 a Ffioedd Archwilio Cymru

**4.3.1 Llythyr Archwilio Cymru – Ffioedd Ychwanegol**
**4.3.2 Cynllun Archwilio Cymru 2024**

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y ffioedd ychwanegol ar gyfer cyfrifon 2022/23 (£8000) a'r ffioedd ar gyfer archwiliad 2023-24 (£53,000), a gofynnwyd i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Nododd yr aelodau eu bod yn anesmwyth ynglŷn ag anallu Archwilio Cymru i eitemeiddio'r gwariant yn ddigon manwl. Nodwyd bod y Bwrdd wedi lleisio a rhannu anesmwythyd tebyg yn y gorffennol mewn perthynas â ffioedd blynyddoedd blaenorol. Gofynnwyd i Archwilio Cymru gynnwys rhagor o fanylion, ond ni fu modd iddo wneud hynny.

### 4.4 Amserlen Cyfrifon Blynyddol (diweddariad llafar)

1. Rhoddwyd manylion i'r aelodau am yr amserlen. Disgwylir i'r Archwilydd fod ar y safle ar 7 Hydref a disgwylir i'r archwiliad ddod i ben erbyn diwedd mis Tachwedd.

2. Bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno gerbron cyd-gyfarfod arferol y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau/Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'w cymeradwyo a disgwylir i'r papurau fynd gerbron y Senedd erbyn diwedd Rhagfyr/dechrau Ionawr. Y gobaith wedyn yw y byddant yn cael eu ffeilio erbyn diwedd Ionawr, ymhell cyn y terfyn amser.

3. Rhoddwyd gwybod i'r Ymddiriedolwyr am yr holl waith papur y gofynnwyd amdano ar gyfer yr archwiliad, ynghyd â natur hynod fanwl y cwestiynau a ofynnwyd eisoes i'r tîm.

4. Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr y byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y llinell amser wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

5. Canmolwyd YR a'i thîm am weithio gydag Archwilio Cymru i geisio symud y terfyn amser yn ôl i'r dyddiad arferol. Y gobaith yn y dyfodol yw y bydd y terfyn amser yn cael ei symud i ddiwedd yr Haf.

**PENDERFYNWYD: DERBYN a NODI'R diweddariad ariannol a ffioedd gwirioneddol Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 yn unol â'r ddogfen (cyfanswm o £55,240, ffi ychwanegol o £8k) a CHYMERADWYWYD y ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023/24 (£53,743).**

---

### Eitem 5. Cymeradwyo'r Diwygiad Arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo
Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

5.1 Diwygiad Arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo
5.2 Y Cynllun Dirprwyo Diwygiedig Arfaethedig

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr, pan fydd y Cyfarwyddwr Cyllid parhaol yn ei swydd.

## Corfforaethol – Corporate

## Eitem 6. Achrediad yr Amgueddfa

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

1. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y bydd Amgueddfa Cymru yn cyflwyno cais ym mis Tachwedd 2024 i adnewyddu'i Hachrediad Amgueddfa. Ar ôl cyflwyno'r cais, bydd cyfnod adolygu estynedig, sef oddeutu 4-6 mis, yn cael ei gynnal a bydd swyddog penodedig yn ymweld â phob safle, ac eithrio Amgueddfa Lechi Cymru. Bydd cais ar wahân yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr Amgueddfa Lechi ar ôl cwblhau'r project.
2. Cydnabuwyd yr amser a dreuliwyd yn llunio'r cais, ond nodwyd bod rhagor o waith i'w wneud.
3. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i KD a'r tîm a chydnabu'r holl waith a wnaed wrth lunio'r cais.

**CAM GWEITHREDU: Dylai KD ddosbarthu crynodeb o'r cais i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, er gwybodaeth, ar ôl iddo gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2024.**

**PENDERFYNWYD: TRAFOD a CHYTUNO.**

## Eitem 7. Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Dysgu ac Ymgysylltu

Rhoddwyd y diweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a ddatblygwyd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, a hefyd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

1. Mae'r adroddiad 'Recommended Core Principles of Proposed Minimum Standards of Service Provision for Disabled People', a ddatblygwyd gan Richie Turner Associates ac a ariannwyd gan Gyngor y Celfyddydau, yn nodi'r fframwaith ar gyfer datblygu nodau barcut ar gyfer lleoliadau celfyddydau ac amgueddfeydd Amgueddfa Cymru. Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad a disgwylir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi mewn nifer o fformatau hygyrch.
2. Nodwyd nifer o ymyriadau a ddatblygwyd yn holl amgueddfeydd Amgueddfa Cymru fel rhan o'r fenter Safbwyntiau a chlywyd bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda.
3. Ar y cyd â Chyngor y Celfyddydau, penodwyd ESPR i gefnogi ac arwain cynllun cyfathrebu Safbwyntiau / Perspectives. Byddant hefyd yn gweithio gyda Thîm Marchnata Amgueddfa Cymru i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y sefydliad.
4. Mae pawb yn fodlon â'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran cyflawni'r ddau gynllun er mwyn creu profiad gwell i bob ymwelydd.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd bod y tîm Ymgysylltu yn gweithio gyda KD i sicrhau bod aelodau o gefndiroedd perthnasol yn Amgueddfa Cymru ar gael i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, yn enwedig yng ngoleuni'r rhaglen newid gyfredol a'r effaith a gafodd honno ar adnoddau staff.
2. Cytunwyd y byddai'n fuddiol atgoffa'r Bwrdd am flaenoriaethau a chyfyngiadau Amgueddfa Cymru mewn perthynas â hygyrchedd. Cytunodd PB i lunio papur byr ar gyfer ei rannu yn un o gyfarfodydd y dyfodol. O ran y prif gamau sydd heb eu cymryd ac sy'n deillio o'r archwiliad hygyrchedd diweddar a gynhaliwyd gan Direct Access

Consultancy ar holl safleoedd Amgueddfa Cymru, dywedodd PB fod y camau hynny angen arian. Mae rhestr o'r gwaith yn cael ei llunio fel y gellir cyflwyno cais Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

3. Yn ogystal â chyfeirio at ganllawiau rheoleiddio, aeth yr ymddiriedolwyr ati i annog pob safle i ymhél â sefydliadau pobl anabl er mwyn cael profiad bywyd.
4. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod gwybodaeth gyhoeddus am hygyrchedd y safleoedd ar gael ar wefan pob safle. Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod dogfen safonau hygyrchedd ar gael i ategu hyn.

   **CAM GWEITHREDU: Dylai LC a PB gytuno ar ddyddiad ar gyfer cyflwyno papur yn sôn am flaenoriaethau a chyfyngiadau hygyrchedd Amgueddfa Cymru.**

**PENDERFYNWYD: Ystyried y diweddariadau a CHAFWYD SICRWYDD.**

---

## Eitem 8. Adroddiad Diweddaru Chwarterol ar Ddatblygu Cynaliadwy

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth

8.1 Adroddiad Diweddaru Chwarterol ar Ddatblygu Cynaliadwy
8.2 Cynllun Rheoli Arfaethedig ar gyfer y Dolydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
8.3 Arolygon Llystyfiant yn Sain Ffagan

Cafodd VH ei chyflwyno i'r Bwrdd gan KE. Ymunodd VH â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

Tynnodd VH sylw'r Bwrdd at y pwyntiau hollbwysig canlynol yn yr adroddiad:

1. Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb ar gyfer cyllid grant sydd bellach ar gael ar gyfer datgarboneiddio systemau gwresogi. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd nwy/LPG yn cael eu disodli gan bympiau gwres o'r aer.
2. Yn dilyn y newidiadau a ddeilliodd o'r rhaglen newid, caiff arolygon bioamrywiaeth ar gynefinoedd a rhywogaethau eu cynllunio'n fanylach.
3. Mae newidiadau yn strwythur y Pwyllgor Cynaliadwyedd (gweithredol) ac yn amlder y cyfarfodydd wedi arwain at ffocws gwell ac mae'r aelodau'n cyfrannu mwy.

### Trafodaeth – holi ac ateb

1. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad. Cafodd VH ei llongyfarch ar ei gwaith gan y rhai a oedd yn bresennol a dywedasant eu bod yn teimlo llawenydd wrth ddarllen y diweddariadau. Gofynnwyd i VH ddiolch i aelodau'r tîm cynaliadwyedd am eu gwaith caled ar ran y Bwrdd.
2. Mae fflyd cerbydau Amgueddfa Cymru yn pontio i gerbydau trydan a chyflwynir rhagor o geisiadau ar gyfer y cerbydau diesel sydd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe a'r Ganolfan Gasgliadau Cenedlaethol ar hyn o bryd.
3. Mae'r tîm Botaneg a Gwyddorau Naturiol yn datblygu methodoleg i sefydlu llinell sylfaen y gall Amgueddfa Cymru ei defnyddio i fesur gwelliannau, gan na cheir dull penodedig y gellir ei ddilyn ar draws y sector wrth gynnal arolygon bioamrywiaeth.
4. Mynegodd y Bwrdd ddiddordeb mewn gweld rhagor o negeseuon cyfathrebu yn ymwneud â rhannu a hyrwyddo llwyddiannau yn y maes cynaliadwyedd yn Amgueddfa

Cymru, sef llwyddiannau y gellir eu rhannu hefyd yn ehangach ledled y Llywodraeth ac ymhlith rhanddeiliaid eraill, e.e. darganfod y brithribin brown yn Amgueddfa Wlân Cymru. Nododd PB fod astudiaethau achos yn cael eu llunio ar hyn o bryd yn ymwneud â phrojectau datgarboneiddio diweddar yn y Big Pit ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe.

5. Yn ystod eu hymweliad â Dre-fach, mae aelodau'r Bwrdd yn edrych ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am y gwaith bioamrywiaeth a wneir yn yr Amgueddfa Wlân.

6. Y gobaith yw y bydd paneli ffotofoltäig y Big Pit yn cynhyrchu digon o drydan i fwydo rhywfaint yn ôl i'r grid ar adegau.

**CAM GWEITHREDU: Dylai VH drafod awgrym AM gyda hi, sef cynnig cymorth ar gyfer Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**CAM GWEITHREDU: Dylai VH drafod syniad JH gyda'r is-bwyllgor, sef y posibilrwydd o greu rhwydwaith trafnidiaeth a fydd yn cynnwys cerbydau fflyd trydan rhwng cymunedau amgueddfa/treftadaeth eraill.**

**CAM GWEITHREDU: Dylai VH rannu'r cynllun gweithredu Datblygu Cynaliadwy tair blynedd ar ôl iddo gael ei ddatblygu gan yr is-bwyllgorau.**

**PENDERFYNWYD: Ystyried y diweddariadau a CHAFWYD SICRWYDD.**

## Safleoedd a Phrojectau Mawr - Sites and Major Projects

**Eitem 9. Ailddatblygu Llanberis – y diweddaraf**
Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni Blaenoriaeth

9.1 Adroddiad Cynnydd
9.2 Adolygiad Gateway OGS – Adolygiad o Asesiad y Project, Medi 2024

Diolchodd PB i'r rhai a fynychodd gyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin yn Llanberis. Tynnodd PB sylw'r Bwrdd at y pwyntiau hollbwysig canlynol a ddeilliodd o'r diweddariad cynhwysfawr:

1. Bu'r Adolygiad Gateway a gynhaliwyd ym mis Medi yn llwyddiannus iawn ac roedd aelodau'r tîm wrth eu bodd eu bod wedi cael sgôr Oren/Gwyrdd. Mae gwaith wedi dechrau ar baratoi ar gyfer yr Achos Busnes Llawn y disgwylir iddo ddigwydd yn nechrau 2025.

2. Cymeradwywyd RIBA 3. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu defnyddio pan fydd y tîm yn cynnal proses dendro ar gyfer chwilio am y prif gontractwr.

3. Mae'r cais i ymestyn cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus.

4. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â chapasiti'r is-orsaf ar y safle a faint o drydan y disgwylir y bydd y safle ei angen yn y dyfodol.

5. Ein bwriad o hyd yw cau'r safle dros dro o 4 Tachwedd am oddeutu 20 mis. Rydym yn cynllunio digwyddiadau ar gyfer wythnos hanner tymor i nodi hyn.

**Trafodaeth – holi ac ateb**

1. Cafwyd gwell eglurder ynglŷn â phenderfyniad Bwrdd Project yr Amgueddfa Lechi i fwrw ymlaen â'r opsiwn 'dim diogelwch uwch' ar gyfer y man arddangos dros dro. Er na fydd yr opsiwn hwn yn ein galluogi i arddangos gwaith gwerth uchel, rhoddodd PB sicrwydd i'r Bwrdd fod cynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer y pethau y gellir eu harddangos.

2. Mae PB yn hyderus y gellir ymdopi â'r bwlch cyllid o oddeutu £3m, ond nododd y bydd hyn yn ddibynnol ar rai pethau, megis a all Amgueddfa Cymru sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, a yw sefyllfa cyllidwyr eraill yn ddiogel, a pha un a ellir dileu neu leihau rhai agweddau ar y project.

3. Dymunodd yr Ymddiriedolwyr yn dda i PB a'r tîm yn dilyn y newyddion rhagorol eu bod wedi ennill statws oren/gwyrdd yn yr Adolygiad Gateway diweddaraf. Cydnabuwyd pa mor ddwys yw'r broses a'r pwysau y gall ei roi ar y tîm.

4. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd ein bod yn ystyried gweithdai ar Ystad Glynllifon fel man storio posibl. Ar ôl ymweld â'r safle ar 1 Tachwedd, bydd yr IOSC yn trafod a yw'r man hwnnw'n addas ar gyfer storio. Cytunwyd y bydd angen cyflwyno papur gerbron y Bwrdd ym mis Rhagfyr neu drefnu cyfarfod Bwrdd interim i drafod y cynnig hwn yn fanylach, a hefyd i gael cefnogaeth yr Ymddiriedolwyr i fwrw ymlaen â'r caffael.

**PENDERFYNWYD: Ystyried y diweddariad a CHAFWYD SICRWYDD.**

---

## Eitem 10. Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

1. Nododd KD fod yr holl raglen mewn perthynas ag Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru wedi datblygu'n gyflym a'n bod wedi cyrraedd cam cyffrous.

2. Ar draws 11 o bartneriaid, comisiynwyd 22 o artistiaid dros y 6 mis diwethaf i ddatblygu gweithiau mewn ymateb i'r casgliad. Mae nifer o'r comisiynau hyn yn ymwneud â safleoedd penodol.

3. Mae'r gwaith digideiddio'n symud yn ei flaen, yn enwedig o ran dwyn ynghyd setiau data'r Llyfrgell Genedlaethol a chasgliad Amgueddfa Cymru. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn cael ei roi ar-lein ddechrau'r flwyddyn nesaf.

4. Mae trafodaethau ar droed ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru, oherwydd bydd y cymorth yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid pontio posibl am chwe mis. Ond ceir pryder na fydd modd parhau â rhaglenni ar yr un lefel os na fydd Amgueddfa Cymru yn parhau i gael cyllid ar yr un lefel ag o'r blaen. Hefyd, ceir risg na fydd modd cyflawni rhaglenni ar y lefel hon heb swyddogaethau hollbwysig – Swyddog Benthyciadau Cymunedol, Swyddog Arddangos a Dysgu, Technegydd ac ati.

5. Atgoffwyd y Bwrdd na fydd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Safle Angor yn cael eu gwireddu.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Rydym yn archwilio ffynonellau cyllid a nawdd allanol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Chyngor y Celfyddydau ac mae cynigion yn cael eu datblygu i'w cyflwyno ym mis Hydref. Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau gyda Chronfa'r Celfyddydau, sydd â diddordeb yn y Model Partneriaeth, y gwaith comisiwn a'r gwaith rhaglen, ond nid cyllid refeniw.

2. Mae KD yn ffyddiog y bydd y cydberthnasau da a ddatblygwyd gyda'r partneriaid yn parhau. Bydd y dull a roddwyd ar waith hyd yn hyn yn batrwm da y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol wrth reoli a chynnal cydberthnasau da.
3. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol ystyried strwythur llywodraethu effeithiol ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'r posibilrwydd y gallai'r strwythur hwnnw fod yn addas ar gyfer model Llywodraethu Partneriaeth o ryw fath.
4. Rhoddwyd y diweddaraf ynglŷn â'r strategaeth cyfryngau cymdeithasol y mae RD a'r tîm yn gweithio arni gyda'r Pennaeth Celf mewn perthynas â'r dyheadau i greu sianel gyhoeddus i hyrwyddo Celf ar y Cyd.
5. Dywedodd KD fod a wnelo'r comisiynau ag ymateb i'r casgliadau ac nad ydynt, o'r herwydd, yn cynnwys tirluniau. Fodd bynnag, defnyddiwyd rhai deunyddiau naturiol, ond nodwyd nad lle Amgueddfa Cymru yw dweud wrth artistiaid pa ddeunyddiau y dylent eu defnyddio.

**CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ymddiriedolwyr gael gweld y gwaith gwerthuso sy'n archwilio effaith gyhoeddus project Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru.**

## Llywodraethu – Governance

### Eitem 11. Y Diweddaraf gan y Prif Weithredwr
Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am y diweddariadau canlynol a roddwyd ar waith ers llunio Adroddiad Diweddaru'r Prif Weithredwr:

1. Cyfarfu JR â Phrif Weithredwyr y sector cyhoeddus yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ddydd Mawrth i ddechrau trafod ar y cyd sut gellir cyflawni'r model gwasanaethau cyhoeddus. Bydd gwaith yn cael ei wneud dros y ddeufis nesaf i ddechrau ystyried ein hymdeimlad cyffredin o bwrpas a gwerthoedd, ynghyd â rhaglen waith a fydd yn esgor ar ffordd fwy cydgysylltiedig o weithio.

2. Defnyddir arian refeniw yn ystod y flwyddyn i roi contract i gyd-Brif Swyddog Gweithredol i helpu Amgueddfa Cymru i fynd i'r afael ag amrywiaeth. Yn ôl pob tebyg, bydd y gwaith yn canolbwyntio'n arbennig ar y gweithlu, oherwydd teimlir nad yw'r maes hwnnw wedi gwneud cynnydd digonol.

3. Dros yr haf cynhaliwyd rhaglenni ddiddorol ac ymddengys eu bod wedi llwyddo i gynhyrchu incwm. Diolchwyd i'r tîm Digwyddiadau ac i gydweithwyr safleoedd am sicrhau llwyddiant y rhaglenni.

4. Ni fydd contract gyda phartner arlwyo Amgueddfa Cymru yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, sef Elior, yn cael ei adnewyddu pan ddaw i ben ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Bydd y Bwrdd yn cael diweddariad maes o law.

5. Bwriedir rhoi contract i sefydliad allanol i ddarparu cymorth a chyngor ar gyfer cyflawni fframwaith effaith yn Amgueddfa Cymru. Bydd gweithdy'n cael ei gynnal i weld sut yn union y caiff effaith ei ddiffinio er mwyn sicrhau bod gwaith y sefydliad yn cyd-fynd â gwerthoedd a blaenoriaethau Amgueddfa Cymru.

6. Cyhoeddwyd y bydd Cynhadledd Genedlaethol y Gymdeithas Amgueddfeydd yn cael ei chynnal yn Sain Ffagan yr hydref nesaf.

7. Mae'r digwyddiad staff anffurfiol y bwriadwyd ei gynnal ar 4 Tachwedd wedi cael ei symud i 10 Chwefror er parch i gydweithwyr sy'n dal i fynd trwy brosesau ymgynghori a newidiadau. Bydd croeso i'r ymddiriedolwyr ymuno â'r gynhadledd.

8. Mae aelodau'r tîm Codi Arian yn anelu at fod yn fwy strategol o ran cyllid sydd yn yr arfaeth, ynghyd â sicrhau eu bod yn gwybod pa bethau sydd bwysicaf i Amgueddfa Cymru ar gyfer codi arian ar eu cyfer a chyda pha godwyr arian er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Bydd yr ymddiriedolwyr yn cael y diweddaraf am y maes hwn yn 2025.

9. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd Amgueddfa Cymru yn awr yn bwydo i bortffolio'r Economi gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb Amgueddfa Cymru.

10. Anogir yr ymddiriedolwyr i wylio 'Dino Hunters' (cyfres 8), Cindy Howell ar iPlayer.

11. Dengys tystiolaeth ymchwil yn ymwneud â model codi arian yn yr Arddangosfa Streic!, a fydd yn agor yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 26 Hydref, fod codi tâl mynediad o £10 yn addas ar gyfer arddangosfa ar y raddfa a'r lefel hon. Ond gan fod cydweithwyr mewn gwahanol rannau o'r sefydliad yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r dull hwn, caiff cydweithwyr â phryderon eu gwahodd i fynychu gweithdy ar 30 Medi fel y gellir cael deialog agored ynglŷn â'r opsiynau. Bydd y gweithdy'n cael ei hwyluso'n allanol. Efallai y bydd angen cynnal sesiwn arall os na chaiff y mater ei ddatrys ddydd Llun.

    **CAM GWEITHREDU: Dylai JR rannu gwahoddiad gydag RT i fynychu gweithdy ar asesiad effaith.**
    **CAM GWEITHREDU: Dylai JR anfon crynodeb o adborth y gweithdy a nodi'r canlyniad.**
    **CAM GWEITHREDU: Cadarnhau bod holl wahoddiadau'r lansiad wedi cael eu hanfon at yr Ymddiriedolwyr.**

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Awgrymwyd y dylid cynnwys cenhadaeth Maint Cymru i gynnig 'arlwyo heb ddatgoedwigo' yn y trafodaethau ynglŷn â'r arlwy bwyd newydd yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
2. Cadarnhawyd bod cydweithwyr o'r Big Pit wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r gweithdy a fydd yn trafod y model codi arian ar gyfer yr Arddangosfa Streic!.

**PENDERFYNWYD: NODI'R diweddariad.**

---

## Eitem 12. Y Diweddaraf gan y Cadeirydd
Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd i AL ac RT am ddangos diddordeb mewn cael eu hailbenodi'n Ymddiriedolwyr am bedair blynedd arall, a mynegodd lawenydd ynglŷn â hyn.

Nododd y Cadeirydd y bydd LC yn cysylltu i drefnu dyddiad er mwyn i'r Ymddiriedolwyr sy'n weddill allu mynychu hyfforddiant perchennog pwll glo yn y Big Pit – bydd yr elfen hon yn orfodol i bob Ymddiriedolwr yn y dyfodol. Nodwyd un neu ddau o gamau a ddeilliodd o'r hyfforddiant, a hefyd cafwyd diweddariad ynglŷn ag archwiliad mewnol y disgwylir iddo gael ei gynnal yn ystod Chwarter 4. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hysbysu ynglŷn â chanlyniadau'r archwiliad.

**PENDERFYNWYD: NODI'R diweddariad.**

---

## Eitem 13. Trosolwg o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth Amgueddfa Cymru a Diweddariadau

Diweddariad ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth Amgueddfa Cymru, yn cynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diweddaraf y BBC/Amgueddfa Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Catrin Roberts, Pennaeth Cynllunio a Materion Allanol a Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

Mewn ymateb i un o argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, rhoddwyd gwybod i'r Ymddiriedolwyr bod y tîm Cysylltiadau Allanol a Chyllido wedi cynnal archwiliad ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth Amgueddfa Cymru er mwyn gweld a yw'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth cyfredol yn bodoli ac yn weithredol ynteu a ydynt yn hanesyddol. Crëwyd un storfa ganolog lle cedwir copïau o'r holl Femoranda Cyd-ddealltwriaeth y gwyddys amdanynt, a hefyd rhestrir perchnogion a/neu arweinwyr y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, ochr yn ochr â dogfen olrhain, fel y gellir eu holrhain yn rhwydd. Mae'r broses hon wedi galluogi'r tîm i ganfod pa Femoranda Cyd-ddealltwriaeth sydd wedi dod i ben neu sy'n barod i'w hadnewyddu. Bwriad y tîm yw cyflwyno papur gerbron y Bwrdd yn flynyddol er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r Ymddiriedolwyr am Femoranda Cyd-ddealltwriaeth.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Diolchodd y Cadeirydd i CR am y diweddariad a diolchodd hefyd i CR, Gwilym Roberts-Harry a'r tîm Cysylltiadau Allanol a Chyllido am gynnal yr archwiliad hir-ddisgwyliedig.

2. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn gefnogol i'r syniad y dylid mynd ati yn y dyfodol i roi gwybod i'r Bwrdd yn rheolaidd am Femoranda Cyd-ddealltwriaeth, er mwyn sicrhau tryloywder llwyr. Cytunwyd y bydd cyfraniad y Bwrdd yn cael ei gyfyngu i faterion o ddiddordeb strategol gwirioneddol yn unig.

3. Rhannodd yr Ymddiriedolwyr syniadau methodoleg o ran bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, megis llunio polisi y dylid ei ddilyn wrth sefydlu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn y dyfodol, llunio strategaeth partneriaeth gyffredinol neu sicrhau bod fframwaith partneriaeth cyffredinol ar waith. Hefyd, pwysleisiwyd pa mor bwysig yw mapio gwaith er mwyn gallu ei gwmpasu'n briodol; yna, bydd y Bwrdd yn gwybod pryd y bydd angen iddo ymhél â'r mater.

4. Awgrymodd RT y byddai'n fuddiol cael rhestr o bartneriaethau lle rhestrir diben pob partneriaeth, yn ogystal â chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd yn nodi'r bartneriaeth a'r hyn a gyflawnir ganddi.

**CAM GWEITHREDU: Dylai CR gyflwyno diweddariad blynyddol i'r Bwrdd ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth.**

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO Memoranda Cyd-ddealltwriaeth diweddaraf y BBC/Amgueddfa Cymru.**

---

### Eitem 14. Y Diweddaraf am yr Adolygiad Teilwredig – Ad-drefnu Pwyllgorau a Gweithio ar y Cyd

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Liz Connolly a Manon Maragakis

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am gynnydd a phwrpas y strwythur newydd. Ei ddiben yw cynorthwyo'r Bwrdd i fodloni'r gofynion craffu a llywodraethu sy'n angenrheidiol i wireddu blaenoriaethau strategol Amgueddfa Cymru.

Mae fframwaith drafft ar gyfer y "Cylch Gorchwyl" wrthi'n cael ei lunio. Bydd modd defnyddio'r fframwaith hwnnw fel templed cyffredin ar gyfer pwyllgorau eraill a byddwn yn anelu at sicrhau cysondeb ar draws pob pwyllgor o ran rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau llywodraethu.

Ar ôl i SET ddatblygu cylch gorchwyl pob pwyllgor, rhagwelir y bydd yn cael ei rannu gyda'r Ymddiriedolwyr oddeutu mis Rhagfyr, fel y gallant ei adolygu a chyflwyno adborth.

Mae MM yn gweithio ar Gytundeb Partneriaeth. Bydd modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr.

**CAM GWEITHREDU: Dylai MM roi diweddariad i'r Bwrdd ar y Cytundeb Partneriaeth ym mis Rhagfyr.**

**PENDERFYNWYD: NODI'R cynnydd.**

---

### Eitem 15. Diweddariad Llafar Llywodraeth Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Manon Maragakis, Nicola Guy a Paul Kindred

Estynnodd y Cadeirydd groeso i NG ar ôl iddi ddychwelyd o'i habsenoldeb.

Rhoddodd NG ddiweddariad llafar gan Lywodraeth Cymru i'r Bwrdd:

1. Mae NG a PK yn rhannu swydd; mae NG yn gweithio tri diwrnod.
2. Cyhoeddwyd yr wythnos hon y byddant yn parhau i fod yn y grŵp Addysg, ond byddant yn atebol i Weinidog yr Economi. Bydd Sioned Evans yn parhau i fod yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i Amgueddfa Cymru.
3. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi'i diddymu ac mae'r swyddogaeth penodiadau wedi symud i AD; mae'r swyddogaeth adolygiadau llywodraethu a chysylltiadau allanol yn parhau i fod ar wahân. Mae'r tîm yn ceisio deall beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol, ond y gobaith yw na fydd yn esgor ar ormod o newidiadau a cheir posibilrwydd y gallai arwain at fwy o hyblygrwydd o ran cytundebau fframwaith a chytundebau partneriaeth.

4. Mae llawer o waith wedi'i wneud ar ddyfarniad cyflog y sector cyhoeddus. Y disgwyl yw y bydd arian ychwanegol ar gael er mwyn galluogi Amgueddfa Cymru i gynnig dyfarniad a fydd yn cyfateb i feysydd eraill ledled y sector cyhoeddus.
5. Cyflwynwyd cynigion ar gyfer cytuno ar setliad cyllideb 3 blynedd mewn perthynas â Chelf, ond gwyddys fod newidiadau sylweddol wedi'u cyflwyno i'r setliad diwethaf.
6. Ni ellir cadarnhau cyllidebau unigol hyd nes y ceir rhagor o fanylion ym mis Hydref ynglŷn â setliad Llywodraeth Cymru a chyllideb Llywodraeth Cymru – disgwylir y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi tua chanol mis Rhagfyr. Rhoddodd NG sicrwydd i'r Bwrdd fod aelodau'r tîm yn gwneud eu gorau i gyflwyno achos cryf, ond dywedodd eu bod yn gwneud hynny mewn cyfnod ariannol hynod anodd.
7. Mae aelodau'r tîm yn falch eu bod wedi cael bron i 400 o ymatebion o bob cwr o Gymru ac ar draws gwahanol sefydliadau diwylliannol i ymgynghoriadau Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant. Mae'r tîm yn mynd trwy'r ymatebion i bennu unrhyw newidiadau i'r blaenoriaethau arfaethedig a gynhwyswyd eisoes. Disgwylir cael ymateb cyhoeddus tua diwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr.
8. Mae'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn cael eu mapio gyda phedair blaenoriaeth y Prif Weinidog a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, er mwyn sicrhau y byddant yn cyd-fynd â gweledigaeth y Prif Weinidog wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD: NODI'R diweddariad llafar.**

---

**Eitem 16. Pensiwn**
Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Cyfarwyddwr Cyllid

16.1 Cynnig Taliad
16.2 Y diweddaraf am yr adolygiad teirblynyddol

Cymerwyd yn ganiataol bod pawb wedi darllen y papurau. Gofynnwyd i'r Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r addewid cyllid ar gyfer taliad untro o £27,000 mewn perthynas â chamgymeriad y sylwyd arno mewn archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn ddiweddar, lle dangoswyd bod rhai staff a ymddeolodd o fewn 5 mlynedd i'r cytundeb rhwng Amgueddfa Cymru a PCS yn 2016 ar eu colled o ran eu pensiwn.

**Trafodaeth – holi ac ateb:**

1. Nododd PB na fwriedir symud yr Ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn gwahanol gan fod y cynllun cyfredol yn gost-effeithiol. Hefyd, byddai newid o'r fath yn ddrud iawn.
2. Rhoddodd YR eglurhad pellach ynglŷn â manylion yr adroddiad a'r hyn y gofynnir i'r Bwrdd ei gymeradwyo, oherwydd nodwyd yn y cyfarfod mai tasg anodd yw deall y ddeddfwriaeth bensiwn a'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO'R addewid cyllid o £27,000 a NODI'R adolygiad teirblynyddol.**

---

**Eitem 17. Adolygu Cofnodion**
Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Adolygwyd y cofnodion a'r materion a gododd o gyfarfod agored y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024. Ni nodwyd cwestiynau na sylwadau.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYO'R cofnodion.**

---

**Eitem 18. Adolygu'r Log Gweithredu Agored**
Noddwr a Chyflwynydd: Liz Connolly, Pennaeth AD a Llywodraethu

Adolygwyd Log Gweithredu cyfarfod agored y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024 a rhoddwyd gwybod i'r aelodau am ddyddiad newydd yr hyfforddiant cynaliadwyedd.

**PENDERFYNWYD: NODI'R cynnydd yn erbyn camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol.**

## Cofnodion o Bwyllgorau Sefydlog - Minutes from Standing Committees

**19. Cofnodion Pwyllgorau Sefydlog.**
Noddwr: Liz Connolly, Pennaeth AD a Llywodraethu

Derbyniwyd a nodwyd y cofnodion canlynol:

a. Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Thaliadau – 14 Mawrth 2024
b. Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau – 23 Mai 2024

**PENDERFYNWYD: DERBYN a NODI**

## Cofnodion o Bwyllgorau Cynghori - Minutes from Advisory Committees

**Eitem 20. Cofnodion Pwyllgorau Cynghori**
Noddwr a Chyflwynydd: Liz Connolly, Pennaeth AD a Llywodraethu

Derbyniwyd a nodwyd cofnodion cyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024.

**PENDERFYNWYD: DERBYN a nodi.**

---

## Eitemau Ychwanegol i'w Nodi - Additional Items to Note

**Eitem 21. Adroddiad Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru – 31 Gorffennaf 2024**

**PENDERFYNWYD: DERBYN a NODI**

**Eitemau 22 a 23. Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2023 / Annual Welsh Language Monitoring Report 2023/24 (a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 3 Medi 2024)**

Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa gan y Cadeirydd fod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, ond ei fod wedi'i gyflwyno gerbron y Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn.

**PENDERFYNWYD: DERBYN a NODI**

---

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a'u cwestiynau, a arweiniodd at drafodaeth ddiddorol a gwerthfawr heddiw.

**Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd – Cloi'r Cyfarfod.**